



Haws dweud na gwneud: datrys ceisiadau carcharorion

Papur canfyddiadau allweddol gan Brif Arolygydd
Carchardai EF

Mawrth 2025

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Section 1	Cefndir	5
Section 2	Y prif ganfyddiadau	8
Appendix I	Methodoleg	19
Appendix II	Cyfeiriadau	20

Cyflwyniad

Yn wahanol i'r sefyllfa yn y gymuned, mae carcharorion bron yn gwbl ddibynol ar eraill i gwblhau hyd yn oed y tasgau mwyaf sylfaenol. Os ydynt eisiau golchi dillad, ffonio eu teulu, trefnu apwyntiad gofal iechyd, neu wirio eu balans arian parod, mae'r cyfan, i garcharorion, yn cael ei gyfryngu drwy bobl eraill, sef swyddogion y carchar yn bennaf.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn disgwyl i garcharorion allu delio â llawer o'u ceisiadau o ddydd i ddydd yn anffurfiol gyda swyddogion ar yr adeiniau. Rhaid i bob carchar hefyd gael system geisiadau ffurfiol i helpu carcharorion i ddatrys materion. Serch hynny, yn ein harolygiadau o garchardai caeedig, rydym yn aml yn adrodd ar y rhwystredigaeth y mae carcharorion yn ei deimlo oherwydd anawsterau ac oedi wrth geisio datrys ceisiadau syml hyd yn oed.

Ar yr wyneb, ac i'r rhai sy'n anghyfarwydd â bywyd yn y carchar, efallai nad yw systemau ceisiadau carchardai yn ymddangos yn arbennig o bwysig. Ond mae'r materion allweddol sy'n plagio'r ystad carchardai ar hyn o bryd, gan gynnwys trais a hunan-niweidio, yn ganlyniadau eithafol a dinistriol, mewn rhai achosion, i broblemau llawer llai yn y lle cyntaf. Mewn un carchar yn ddiweddar, er enghraifft, dywedodd carcharorion wrth yr arolygwyr fod lefelau uchel iawn o drais yn cael eu hachosi gan gyffuriau a dyledion, ond hefyd rhwystredigaeth am fethiant staff i ddelio'n ddibynadwy â hyd yn oed eu ceisiadau mwyaf sylfaenol.

Un ffordd y mae carcharorion yn profi diwylliant carchar, ac yn enwedig ymddygiad ei staff, yw drwy ba mor effeithiol yw systemau ceisiadau. Mae'r adolygiad hwn yn dangos, pa system bynnag sydd ar waith, fod llawer o wendidau'n parhau, a bod y rhain yn aml yn cael eu gwaethygu gan ymarfer gwael.

Mae defnyddio mwy ar dechnoleg, gan gynnwys gliniaduron yn y celloedd, wedi bod yn gam cadarnhaol ar y cyfan, gan alluogi carcharorion i wneud ceisiadau, yn ogystal â chadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid a chael y newyddion diweddaraf yn y carchar. Mae ciosgau mewn adeiniau, neu liniaduron yn y celloedd, yn tueddu i ddarparu lefel well o dryloywder na systemau papur, a llwybr archwilio o ran pryd fydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno ac yn cael ymateb, ond mae problemau gyda'r systemau hyn hefyd.

Yn yr adolygiad hwn, dywedodd mwy o ymatebwyr mewn sefydliadau sy'n defnyddio systemau electronig yn hytrach na rhai papur fod ceisiadau'n cael eu trin yn brydlon fel arfer, ond bod ansawdd rhai atebion yn wael. Roedd manteision gliniaduron yn y celloedd yn cael eu rhwystro oherwydd rhai rheolau di-fudd ynglŷn â pha mor aml y gellid cyflwyno ceisiadau a faint o fanylion y gellid eu cynnwys.

Nid oedd gwahaniaeth mawr yng nghanfyddiadau carcharorion a oedd yn defnyddio systemau papur neu electronig ynghylch a oedd ceisiadau'n cael eu trin yn deg. Yn ddiddorol, dywedodd llai o ymatebwyr mewn carchardai â systemau electronig ei bod yn hawdd gwneud cais (65% o'i gymharu â 71%

gyda systemau papur). Roedd hyn yn debygol o fod wedi cael ei achosi gan drefnau cyfyngedig, a oedd yn golygu nad oedd carcharorion yn gallu cael mynediad at giosgau adain yn ddigon rheolaidd, gan gyfyngu'n ddifrifol ar fanteision y dechnoleg well. Roedd carcharorion tramor cenedlaethol, a rhai â lefelau llythrennedd isel neu anawsterau dysgu, yn wynebu heriau penodol wrth ddefnyddio'r naill system neu'r llall.

Ychydig iawn o arweinwyr a oedd wedi cymryd camau i ddeall pwysigrwydd gwneud i'r system geisiadau weithio'n effeithiol. Er bod pwysigrwydd perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, mae'n llawer llai amlwg bod arweinwyr a staff yn deall eu rôl hanfodol yn datrys problemau carcharorion, naill ai'n anffurfiol ar yr adeiniau neu drwy broses ffurfiol, ysgrifenedig. Byddai'r ddealltwriaeth hon yn cyfrannu'n helaeth at leihau rhwystredigaethau carcharorion ac yn gwneud carchardai'n fannau mwy diogel a chynhyrchiol.

Charlie Taylor

Prif Arolygydd Carchardai EF

Mawrth 2025

Adran 1 Cefndir

- 1.1 Un o ganlyniadau carcharu yw nad oes gan garcharorion yr un rhyddid i gwblhau tasgau o ddydd i ddydd a chael gafael ar wasanaethau ag a fyddai ganddynt yn y gymuned. Mae eu gallu i gyflawni pethau bron yn gwbl ddibynnol ar eraill. Yn y lle cyntaf, gall carcharorion geisio datrys ceisiadau'n anffurfiol gyda'r swyddogion. Ond nid yw hyn bob amser mor syml â'r disgwyl. Gall diffyg mynediad at dechnoleg, dim llawer o ryddid i symud o gwmpas y carchar i siarad â'r rhai a allai ddatrys eu hymholiadau, a lefelau ac ansawdd amrywiol y rhyngweithio â staff, olygu bod carcharorion yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddewis llwybrau mwy ffurfiol.
- 1.2 Mae gan bob carchar system geisiadau ffurfiol y mae carcharorion yn ei defnyddio i gyflwyno cwestiynau neu ymholiadau y maent eisiau eu datrys. Enghreifftiau o geisiadau yw gofyn am gael papur tŷ bach ychwanegol ar gyfer cell, gofyn am gael trefnu apwyntiad i siarad â staff mewn adran arall, a gwneud cais am gyrsiau penodol neu swyddi yn y carchar.
- 1.3 Yn ein Disgwyliadau, rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod carcharorion yn gallu datrys eu ceisiadau'n hawdd ac yn gyflym:

Mae staff a charcharorion yn cael eu hannog i ddatrys ceisiadau'n anffurfiol; pan nad yw hyn yn bosibl, mae carcharorion yn deall sut i wneud cais am y gwasanaethau sydd ar gael ac yn gallu gwneud hynny'n rhwydd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a allai ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae staff a charcharorion yn cael eu hannog i ddatrys ceisiadau'n anffurfiol, cyn gwneud cais neu gŵyn ffurfiol, ysgrifenedig.
- Mae carcharorion yn gwybod sut i wneud ceisiadau ac yn gallu gwneud hynny'n gyfrinachol.
- Mae'r staff yn helpu carcharorion i wneud ceisiadau, yn ôl y gofyn.
- Nid oes rhaid i garcharorion wneud ceisiadau dro ar ôl tro am wasanaethau maen nhw'n eu defnyddio neu'n eu derbyn yn rheolaidd.
- Mae carcharorion yn cael ymatebion amserol i'w ceisiadau sy'n deg, yn barchus, yn hawdd eu deall ac yn mynd i'r afael â'r materion a godir.

Arolygiaeth Carchardai EF, "Disgwyliadau"

- 1.4 Mae'r papur hwn yn edrych ar ba mor dda y mae'r systemau ceisiadau'n gweithio mewn carchardai caeedig sy'n dal dynion a menywod. Nid ydym wedi cynnwys carchardai agored lle mae gan garcharorion fwy o ryddid i symud o gwmpas y sefydliad a mynd at staff yn uniongyrchol i gael cymorth.
- 1.5 Yn ein harolygiadau o garchardai caeedig, rydym yn aml yn adrodd bod carcharorion yn teimlo'n rhwystredig â'r anawsterau a'r oedi sy'n eu hwynebu wrth geisio datrys ceisiadau syml hyd yn oed.
- 1.6 Mae'r canfyddiad o ddewis ac ymreolaeth yn hanfodol ar gyfer gweithrediad seicolegol unigolion ac mae'n gysylltiedig ag ansawdd bywyd uwch (van der Kaap-Deeder, et al. 2017). Mae carcharorion yn aml yn dweud wrthym fod methu â chael datrys ceisiadau syml yn niweidiol i'w llesiant emosiynol a meddyliol. Mewn achosion sy'n peri pryder arbennig, mae rhwystredigaeth ynghylch ceisiadau syml nad ydynt wedi cael eu hateb wedi cyfrannu at garcharorion yn niweidio eu hunain, fel y gwelsom ym Manceinion pan fuom yn arolygu y llynedd.
- 1.7 Mae ymchwil wedi dangos bod canfyddiad o ddiffyg rheolaeth dros y pethau sy'n effeithio ar fywydau pobl yn gallu cael effaith negyddol ar eu cymhelliant (Bandura 1977). Mae ein harolygiadau'n canfod y gall hyn arwain at ymddygiad gwael ymysg carcharorion, sy'n cynnwys torri rheolau, trais, diffyg parodrwydd i wneud newidiadau i'w hymddygiad, ac ymddieithrio oddi wrth gynlluniau dedfrydau a gwaith arall i helpu i leihau'r risg o aildroseddu.
- 1.8 Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn cydnabod ei bod yn bwysig diwallu anghenion dyddiol carcharorion ac mae wedi creu canllawiau i staff ar ffurf cyfarwyddyd y gwasanaeth carchardai (PSI): PSI 75/2011 Gwasanaethau Preswyl. Mae hyn yn nodi:

1.15: Rhaid i weithdrefnau ceisiadau effeithiol fod ar waith, bod yn hawdd cael gafael arnynt, bod yn hawdd eu defnyddio a darparu ymateb amserol. Mae'n bwysig fod carcharorion yn teimlo'n ddiogel rhag sgil-ffeithiau wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn a'u bod yn ymwybodol o'r weithdrefn apelio.

3.1: Rhaid i sefydliadau gael proses geisiadau. Mae cais yn rhoi cyfle i staff wrando ar broblem carcharor, rhoi cyngor ac ymdrin â materion syml yn gyflym. Mae'r system geisiadau yn broses ganolraddol rhwng siarad â swyddog ar y naill law a chychwyn y drefn gwyno ffurfiol ar y llall. Gall fod yn effeithiol iawn i ddiwallu anghenion neu setlo cwynion yn gymharol anffurfiol yn gynt.

Fel arfer, bydd ceisiadau'n cael eu derbyn a'u trin gan staff preswyl. [...] dylai delio â chais [...] yn gyflym, yn deg ac yn gynhwysfawr ar y cam hwn olygu llai o gwynion ffurfiol yn nes ymlaen, a dylai carchardai ystyried pa lefel o oruchwyliaeth neu ymwneud gan reolwyr sy'n angenrheidiol i gynnal yr ansawdd.

Dyma elfennau hanfodol proses geisiadau leol:

- Rhaid gwrandio ar geisiadau'n ddyddiol, lle bynnag y bo'n bosibl, mewn ystafell neu swyddfa ymhell o glyw carcharorion eraill.
- Rhaid derbyn ceisiadau llafar ac ysgrifenedig.
- Rhaid i'r staff preswyl gadw cofnod byr o'r cais a'r canlyniad.
- Rhaid i garcharorion gael gwybod pa gamau sydd i'w cymryd a pha bryd.
- Rhaid i sefydliadau ystyried anghenion carcharorion a allai ei chael yn anodd gwneud cais ysgrifenedig neu lafar yn y ffordd arferol, er enghraifft oherwydd anawsterau o ran llythrennedd neu iaith.

Efallai y bydd sefydliadau'n ei chael hi'n ddefnyddiol darparu ffurflenni cais ysgrifenedig i garcharorion eu defnyddio i wneud ceisiadau, ochr yn ochr â'r broses o wneud cais ar lafar. Dylid annog carcharorion i ddefnyddio'r system geisiadau i geisio datrys unrhyw faterion maen nhw'n dymuno eu codi oni bai eu bod yn dod o dan gyfarwyddyd arall, h.y. cwynion. Os defnyddir ffurflen, dylai copïau fod ar gael yn rhwydd.

HMPPS PSI 75/2011 Gwasanaethau Preswyl

- 1.9 Er mwyn archwilio i ba raddau y mae'r gwasanaeth carchardai yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn, fe wnaethom ni gynnal adolygiad o'n hadroddiadau ar arolygiadau o garchardai caeedig a gynhaliwyd rhwng 1 Hydref 2023 a 30 Medi 2024. Fe wnaethom ni hefyd gynnal dadansoddiad o ganfyddiadau ein harolygon carcharorion ar gyfer yr un cyfnod, a oedd yn cynnwys dadansoddiad ystadegol o'r ymatebion i gwestiynau caeedig a dadansoddiad thematig o'r sylwadau a wnaed yn y cwestiynau agored.

Adran 2 Y prif ganfyddiadau

Roedd swyddogion yn aml yn methu â delio â cheisiadau gan garcharorion yn anffurfiol

- 1.10 Fel y gwelir yn ein Disgwyliadau a chanllawiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, y dull gorau ar gyfer delio â cheisiadau carcharorion yw gwneud hynny'n anffurfiol, yn bennaf drwy gymorth gan swyddogion ar yr adain.
- 1.11 Roedd prinder swyddogion i fod ar gael yn broblem gyffredin mewn llawer o'r carchardai a arolygwyd gennym, ac roedd hyn yn aml yn golygu llawer llai o amser allan o'r gell i garcharorion o ganlyniad i drefn ddyddiol gyfyngedig. Pan oedd llai o swyddogion ar yr adeiniau, roeddent yn debygol o fod yn fwy prysur a llai o amser ganddynt i gynorthwyo gyda cheisiadau gan garcharorion. Roedd hefyd yn golygu nad oedd gwaith allweddol, sef pan fo swyddog carchar yn cael ei ddyrannu i garcharorion er mwyn eu harwain, eu cefnogi a'u hannog drwy eu dedfryd o garchar, yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad, gan gau allan lwybr posibl allweddol ar gyfer cael cymorth gyda cheisiadau sylfaenol.
- 1.12 Hyd yn oed pan oedd swyddogion ar gael, roeddem yn aml yn dweud eu bod yn ymgasglu mewn swyddfeydd, yn hytrach na bod ar gael ar yr adain. Roedd hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i garcharorion ofyn am eu cymorth, a gallai arwain at ganfyddiadau nad oedd gan staff ddiddordeb mewn helpu.
- 1.13 Mynegwyd y safbwyntiau hyn yn aml yn ein harolygon, gyda llawer o garcharorion yn mynegi barn negyddol am staff, gan ddweud eu bod yn annibynadwy, di-hid, anystyriol neu anghwrtais.

“Mae'n anodd gofyn am ddim byd ganddyn nhw, hyd yn oed am anghenion sylfaenol fel papur tŷ bach ac ati.” **Arolwg carcharorion, Bedford, Tachwedd 2023**

- 1.14 Mewn llawer o garchardai, roedd swyddogion a oedd yn gweithio ar yr adeiniau yn newydd i'r swydd, ac yn ystod nifer o arolygiadau, gan gynnwys yn Wandsworth, Highpoint, Rochester a Woodhill, awgrymodd carcharorion ei bod yn anodd cael datrys ceisiadau syml oherwydd bod swyddogion heb wybodaeth sylfaenol na phrofiad.
- 1.15 Dywedodd carcharorion wrthym hefyd fod swyddogion, pan oeddent yn cael eu symud dros dro i garchar, yn aml heb fod yn gwybod y gweithdrefnau lleol a heb amser i ddatblygu perthynas ymddiriedus â carcharorion.
- 1.16 Yn ein harolygiad o Peterborough, sy'n dal dynion a menywod ar ddau safle ar wahân, gwelsom fod y berthynas rhwng staff a menywod yn dal


yn gryf ac yn gefnogol. Ond roedd swyddogion yn aml yn cael eu hadleoli o garchar y dynion i weithio ar safle'r menywod, ac roedd rhai ohonynt yn llai cyfarwydd â gweithio gyda menywod. Roedd hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn gallu delio â materion nac ateb ceisiadau syml yn brydlon nac yn deg, ac roedd menywod yn dweud bod hyn yn rhwystredig.

“Mae angen gwella [ceisiadau], mae angen i staff fod yn barod i'n helpu a pheidio â llusgo traed. Mae angen i staff roi sicrwydd i ni bod rhai ymholiadau wedi cael eu hateb. Pethau y gellir eu gwneud ar yr un diwrnod drwy wneud galwad ffôn neu fynd i'r adran honno, pan nad ydynt yn gwneud unrhyw beth sydd angen ei wneud.” **Arolwg carcharorion, Carchar menywod Peterborough, Tachwedd 2023**

- 1.17 Mae astudiaethau wedi canfod y gall canfyddiadau carcharorion o barch gael ei ddangos gan staff yn 'datrys pethau' neu'n 'trefnu i bethau gael eu gwneud'. Yn ddiddorol, nid yw canfyddiadau cadarnhaol o reidrwydd yn dibynnu ar gael ymateb ffafriol, fel caniatâd i wneud rhywbeth. Roedd gan garcharorion fwy o ddiddordeb mewn ymateb diamwys a oedd, yn eu barn nhw, wedi'i gyrraedd drwy broses deg o wneud penderfyniadau. (Hulley, Liebling & Crewe 2012, a Fitzalan Howard, F., Box, G., & Wakeling, H. (2023).
- 1.18 Ymysg yr ymatebwyr a ddywedodd fod ceisiadau'n cael eu trin yn deg, dywedodd 88% o garcharorion fod y rhan fwyaf o'r staff yn eu trin â pharch, a dywedodd 87% fod ganddynt aelod o staff y gallent droi ato pe bai ganddynt broblem, o'i gymharu â 51% a 57% o garcharorion nad oeddent yn dweud bod ceisiadau'n cael eu trin yn deg.

Ffigur 1: Roedd gan garcharorion a ddywedodd fod ceisiadau'n cael eu trin yn deg ganfyddiadau mwy cadarnhaol o'u perthynas â staff.

Carchardai caeedig dynion a menywod, arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024.



Ffynhonnell: Arolwg o arolygiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Yn Rye Hill, roedd goruchwyliaeth rheolwyr o systemau a phrosesau bob dydd, gan gynnwys cynefino, ceisiadau a dyrannu i weithgareddau, yn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Roedd hyn yn cael gwared ar y drwgdeimlad o ddydd i ddydd rydym ni fel arfer yn ei weld mewn sefydliadau eraill ac yn rhoi amser i staff a charcharorion ddatblygu perthnasoedd da.

- 1.19 Yn ein dogfen thematig 'Time to care: what helps women cope in prison?', fe wnaethom ni ddweud bod menywod yn meddwl yn uchel o swyddogion a oedd yn bodloni ceisiadau syml, neu'n gwneud ymdrechion arbennig i'w cynorthwyo.

"Os bydd hi'n dweud y bydd hi'n gwneud rhywbeth, bydd hi'n gwneud hynny. Helpodd fi i gael gwaith." **Time to care: what helps women cope in prison?**

- 1.20 Roedd y potensial i wella'r berthynas rhwng staff a charcharorion drwy helpu carcharorion gyda cheisiadau i'w weld yn amlwg yn rhai o'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan garcharorion:

"Mae staff yn dda iawn gyda ni ac maen nhw'n ceisio datrys pethau."
Arolwg Carcharorion, Bure, Hydref 2023

Dim digon o amser i garcharorion gael sylw i'w ceisiadau

- 1.21 Gan mai ychydig o amser yr oeddent yn ei gael allan o'r gell roedd carcharorion yn aml yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng tasgau fel cael cawod, glanhau eu cell, treulio amser yn yr awyr agored neu – lle roeddent ar gael – defnyddio ciosgau gwybodaeth a cheisiadau ar yr adain pan nad oeddent wedi cloi.
- 1.22 Serch hynny, pan oedd yr holl garcharorion ar adain yn ceisio cwblhau'r un tasgau ar yr un pryd, nid oedd syndod bod rhai yn cael trafferth cael mynediad at giosgau gwybodaeth a cheisiadau ar yr adain yn ystod eu hamser allan o'r gell. Yn ein harolygon, roedd llawer llai o ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt lai na dwy awr allan o'u cell ar ddiwrnod arferol o'r wythnos wedi dweud hefyd ei bod yn hawdd gwneud cais (53% o'i gymharu â 75%). Er enghraifft, nododd un carcharor:

"Ddim allan o'r celloedd ddigon, methu cael amser i wneud dim, 25 munud i fynd i'r ffreutur a chael cawod, mae hynny'n jôc yn enwedig pan mae llwyth o bobl eisiau defnyddio tri chiosg." **Arolwg Carcharorion, Durham, Mai 2024**

- 1.23 Pan fo'r amser y tu allan i'r gell yn dda, gwelsom fod carcharorion yn gallu datrys llawer mwy o broblemau o ddydd i ddydd yn anffurfiol

gyda'r staff a bod llai o angen iddynt droi at y system geisiadau ffurfiol, fel yn Rye Hill.

**“Mae'r staff ar yr adain yn wych – maen nhw'n delio â materion ar unwaith.”
Arolwg Carcharorion, Rye Hill, Medi 2024**

Nid oedd systemau ceisiadau ar bapur yn gweithio

- 1.24 Roedd gan y rhan fwyaf o'r carchardai a arolygwyd gennym system geisiadau ar bapur, gyda ffurflenni – fel ceisiadau gofal iechyd – a oedd i fod ar gael yn rhwydd ar yr adain. Serch hynny, nid oedd ffurflenni ar gael yn rhwydd bob amser a dywedodd carcharorion fod yn rhaid iddynt ofyn i staff amdanynt, ac roedd hyn yn tanseilio cyfrinachedd.
- 1.25 Roedd disgwyl i garcharorion nodi eu cais ar y ffurflen a'i rhoi i'r staff. Mewn llawer o garchardai, roedd bonyn derbyn i fod i gael ei roi'n ôl i'r carcharor ond, yn ymarferol, pur anaml y digwyddai hyn, ac roedd hyn yn golygu nad oedd gan y carcharor dystiolaeth ei fod wedi'i gyflwyno.
- 1.26 Buom yn siarad â charcharorion a oedd yn cael trafferth cwblhau ceisiadau ar bapur, oherwydd eu lefel llythrennedd neu anabledd dysgu, fel dyslecsia. Nododd un carcharor yr angen am y canlynol:

“Staff gwell a chiosg gan fod cais ar bapur yn anodd iawn i bobl ag anawsterau dysgu a dyslecsia.” Arolwg Carcharorion, Brixton, Mehefin 2024

- 1.27 Gallai carcharorion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf ei chael hi'n anodd llenwi'r ffurflen hefyd. Mewn llawer o achosion, roedd yn rhaid iddynt ddibynnu ar un o'u cymheiriaid i'w llenwi ar eu rhan. Yn ein harolygon, roedd llai o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn wladolion tramor wedi dweud ei bod yn hawdd gwneud cais (61% o'i gymharu â 70%).
- 1.28 Mewn rhai carchardai, roedd cofnod o dderbyn cais, ond ym mron pob achos nid oedd system i gofnodi pryd, neu hyd yn oed os, cafodd carcharorion ateb. Mewn un arolygiad, gwelsom geisiadau a oedd wedi cael eu gadael mewn swyddfa am wythnos a mwy heb gael eu hanfon i'r adran berthnasol.



Pentwr o geisiadau papur heb eu hateb

- 1.29 Mewn un sefydliad â phoblogaeth o fwy na 700, roedd data'r carchar yn awgrymu mai dim ond 2,409 o geisiadau a gyflwynwyd mewn 12 mis, sy'n ffigur mor isel fel ei fod prin yn gredadwy.
- 1.30 Hyd yn oed pan oedd ceisiadau'n cael eu hanfon i'r adran berthnasol, dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn aml yn aros yn rhy hir am ymateb. Yn yr arolwg a gynhaliwyd gennym yn Brixton ym mis Mehefin 2024, roedd un carcharor yn crynhoi ei rwystredigaeth:

“Mae'r broses geisiadau'n cymryd wythnosau i gael ateb os ydych chi'n lwcus. Mae'n cymryd misoedd i newid rhifau pin carchar.” **Arolwg carcharorion, Brixton, Mehefin 2024**

- 1.31 Roedd ein harolygiadau wedi canfod ceisiadau lle'r oedd yn amlwg fod angen i gais gan garcharorion gael ei ddatrys yn gyflym cyn dyddiad cau penodol, er enghraifft, gofyn am ddillad er mwyn ymddangos yn y llys. Serch hynny, nid oeddent yn cael ateb am nifer o wythnosau, ac erbyn hynny roedd hi'n rhy hwyr.
- 1.32 Gallai bod yn hwyr yn ymateb i geisiadau gael ei ddehongli gan garcharorion fel diffyg parch. Gallai hefyd arwain at bryder a/neu rwystredigaeth, yn enwedig pan oedd y cais yn ymwneud â materion mor bwysig â ble byddai carcharor yn byw ar ôl cael ei ryddhau.
- 1.33 Clywsom yn aml gan garcharorion fod ceisiadau'n cael eu gwrthod am resymau sy'n ymddangos yn annilys a bod staff yn defnyddio'r rhesymau hyn i gyfiawnhau peidio â delio â'r cais. Er enghraifft:

“Mae pethau’n cymryd llawer gormod o amser i’w datrys. Mae hyd yn oed y peth mwyaf syml yn cymryd tri diwrnod (mwy weithiau) i gyrraedd yr adran gywir. Os yw pethau (hyd yn oed y peth lleiaf) yn anghywir, bydd y cais yn cael ei anfon yn ôl i’w ddechrau eto.” **Arolwg Carcharorion, Full Sutton, Mawrth 2024**

- 1.34 Fe wnaethom ni arolygu saith carchar lle’r oedd yn rhaid i garcharorion gyflwyno ceisiadau ar bapur. O’r rhain, nid oedd pump yn gallu darparu unrhyw ddata ar brydlondeb yr ymatebion.
- 1.35 Heb system fonitro ddigonol, nid oedd arweinwyr carchardai’n gallu gwrthod honiadau carcharorion fod y system geisiadau’n aneffeithlon. Roedd hyn yn tanseilio’r cysyniadau o gyfiawnder gweithdrefnol a thrin carcharorion yn barchus.

“Prin y mae’r swyddogion yn ymateb i geisiadau cyffredinol. Cymerodd y swyddogion dros fis i nôl fy Qur’an o fy eiddo.” **Arolwg Carcharorion, Lewes, Chwefror 2024**

- 1.36 Ychydig iawn o arweinwyr a oedd wedi cymryd camau a oedd yn dangos eu bod yn deall pwysigrwydd gwneud i’r system geisiadau weithio’n effeithiol. Nid oedd yn glir fod pawb yn deall bod y systemau geisiadau’n elfen allweddol o ran sut roedd carcharorion yn ystyried y staff ac yn profi diwylliant y carchar.
- 1.37 Roedd rhai carchardai’n gwneud defnydd da o gefnogwyr cymheiriaid i helpu carcharorion i ddatrys ceisiadau ac ymholiadau, er enghraifft, penodi gweithwyr ar gyfer desg wybodaeth i garcharorion, a oedd yn gyfrifol am gyfeirio carcharorion eraill at wasanaethau, ac a oedd fel arfer yn cadw stoc o ffurflenni cais.

Yn Brixton, roedd cefnogwyr cymheiriad dynodedig y carcharorion yn stampio a chofnodi pob cais cyn iddo fynd i’r adran berthnasol ac eto pan oedd ateb yn dod yn ôl. Roedd y data hwn yn cael ei gasglu’n ddyddiol gan reolwyr gan dynnu sylw at geisiadau a oedd yn disgwyl ateb er mwyn helpu i wella goruchwyliaeth a phrydlondeb yr ymatebion.



Desg wybodaeth i garcharorion yn Hindley

Yn Morton Hall, roedd staff wedi gwneud defnydd arbennig o dda o 'gofnod datrys anffurfiol' i ganolbwyntio ar ddelio â materion dyddiol a allai fel arall achosi rhwystredigaeth barhaus ymysg carcharorion. Er enghraifft, roedd y cofnod yn nodi sut roedd staff wedi datrys pryderon gyda'r system ffôn rhifau pin ac wedi ail-anfon dogfennau coll.

- 1.38 Yn y sylwadau i'n harolwg, dywedodd rhai carcharorion y byddai'n well ganddynt gael systemau electronig, gan eu bod yn teimlo y byddai hyn yn fwy effeithlon ac yn fwy ecogyfeillgar ac yn rhoi rhywfaint o reolaeth iddynt dros eu materion eu hunain.

"Byddai system ciosg electronig yn Wymott yn gwneud bywyd yn llawer symlach i garcharorion ac yn gwella eu hiechyd meddwl gan y byddai'n cael gwared ar y ddibyniaeth ar geisiadau papur a chymorth staff. Byddai'r carcharorion yn gyfrifol am eu materion eu hunain yn llawer mwy." Arolwg Carcharorion, Wymott, Rhagfyr 2023

A yw'r defnydd o dechnoleg yn helpu?

- 1.39 Yn 2021, cyhoeddodd y gwasanaeth carchardai ei 'Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg' a oedd yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod pobl yn ein gofal yn cael yr offer a'r dechnoleg ddigidol i'w helpu i adsefydlu, drwy sicrhau bod pob carcharor mewn carchardai caeedig yn cael mynediad at liniadur neu dabled (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2021).
- 1.40 Canfu gwerthusiad o dechnoleg ddigidol mewn carchardai a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod carcharorion yn dweud bod


cyflwyno gliniaduron yn welliant sylweddol ar y system ceisiadau papur, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r tryloywder yr oedd y dechnoleg yn ei gyflwyno i'r broses geisiadau (Palmer, Hatcher, a Tonkin 2020).

- 1.41 Roedd nifer o'r carchardai a arolygwyd gennym yn defnyddio technoleg i gefnogi'r broses geisiadau. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys ciosgau ar adeiniau y gallai carcharorion eu defnyddio i gyflawni amrywiaeth o dasgau o ddydd i ddydd, fel gwirio eu balansau arian parod, dewis oddi ar y fwydlen, a chyflwyno ceisiadau.

Yn Oakwood, roedd carcharorion yn gadarnhaol am y ciosgau electronig a oedd yn eu galluogi i gyflawni llawer o dasgau o ddydd i ddydd, fel ychwanegu credyd yn syth at eu PIN ffôn. Defnyddid y ciosgau hefyd i ddewis oddi ar y fwydlen, prynu bwydydd ychwanegol i'w coginio, a chyflwyno ceisiadau i adrannau ar draws y carchar.

Yn Nottingham, gallai carcharorion wneud ceisiadau'n hwylus drwy giosgau electronig ar yr adeiniau, ac roedd goruchwyliaeth i wneud yn siŵr eu bod yn cael ymateb prydlon. Yn ôl data carchardai, yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd tua 92% o'r ceisiadau wedi cael ymateb o fewn saith diwrnod.

- 1.42 Serch hynny, roedd rhai problemau gyda'r model ciosg ar adeiniau. Er enghraifft, nid oedd modd cyflwyno pob cais yn electronig; yn Five Wells, roedd yn rhaid gwneud ceisiadau gofal iechyd gan ddefnyddio ffurflenni papur.
- 1.43 Yng ngharchar menywod Peterborough, dywedodd menyw a oedd yn defnyddio cadair olwyn ei bod yn anodd cyrraedd uchder sgrin y ciosg ac nad oedd hi felly yn gallu ei ddefnyddio. Hefyd, nid oedd modd cysylltu â rhai adrannau drwy'r ciosg ac nid oedd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i chyfieithu i ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Gwelsom hefyd rai enghreifftiau lle'r oedd ciosgau wedi cael eu torri, ac roedd hyn yn cyfyngu ymhellach ar fynediad.



Ciosg ddim ar gael

- 1.44 Mae gan y gwasanaeth carchardai raglen barhaus i gyflwyno gliniaduron mewn celloedd (dyfeisiau Launchpad). Ym mis Medi 2024, roedd y rhain ar gael i tua 13,000 o garcharorion mewn carchardai yn y sector cyhoeddus, sy'n cyfateb i ychydig dros 15% o'r ystad (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2024).
- 1.45 Roedd y dyfeisiau'n galluogi carcharorion i weld hysbysiadau a gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau a gwasanaethau yn y carchar. Roeddent hefyd yn cynnig mwy o reolaeth ar rai agweddau ar eu bywydau, fel gwirio eu harian gwario, cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd gan ddefnyddio'r cynllun 'e-bost at garcharor', a chysylltu â'u cynghorwyr cyfreithiol drwy e-bost.
- 1.46 Er bod y dyfeisiau'n darparu manteision, roedd cyfyngiad ar eu defnydd. Er enghraifft, roedd cyfyngiad ar nifer y nodau y gellid eu defnyddio mewn un cais neu neges i adran o'r carchar, ac roedd hyn yn effeithio ar lefel y manylion y gellid eu cynnwys yn y cais a'r ymateb. Dywedodd un carcharor:

"Y peth mwyaf annifyr yn y carchar hwn yw'r system geisiadau. Maen nhw'n rhoi 250 o eiriau i chi ar gyfer cais ac yna'n dweud wrthyh chi am roi'r holl wybodaeth neu na fydd y cais yn cael ei brosesu. Dydy 250 o eiriau ddim yn ddigon." **Arolwg Carcharorion, Garth, Awst 2024**

- 1.47 Oherwydd bod y dyfeisiau ar gael yn y celloedd drwy'r amser, roedd carcharorion yn aml yn cyflwyno mwy o geisiadau, hyd yn oed o'u cymharu â charchardai lle roedd ciosgau ar adeiniau. Yn Garth, sydd â

phoblogaeth o 800 o garcharorion, cyflwynwyd dros 100,000 o geisiadau mewn 12 mis.

- 1.48 Gwelsom fod rheolau di-fudd mewn rhai carchardai wedi cael eu rhoi ar waith i gyfyngu ar ba mor aml y gallai carcharorion gyflwyno cais, ac nid oedd hyn yn helpu i wella'r canlyniadau i garcharorion.
- 1.49 Roedd un carcharor yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg ymateb gan The Link, sef hwb ar gyfer gwasanaethau adsefydlu, ac roedd y system wedi'i atal rhag cyflwyno cais arall i'r adran honno nes ar ôl iddo gael ei ryddhau:

“Mae'r broses geisiadau'n chwerthinllyd gyda'r terfyn amser pan na allwch ailymgeisio: e.e. rydw i wedi gwneud cais i'r Link am help gyda llety, dydw i ddim wedi clywed dim ac rydw i'n cael fy rhyddhau ar [dd/mm], alla i ddim anfon cais arall i holi am fy llety tan [dd/mm].” **Arolwg Carcharorion, Carchar dnyion Peterborough, Ionawr 2024**

- 1.50 Dylai defnyddio systemau electronig olygu bod modd olrhain ceisiadau'n well er mwyn monitro a gwella prydlondeb. Yn ein harolwg, roedd llawer mwy o'r ymatebwyr mewn sefydliadau sy'n defnyddio systemau electronig yn hytrach na rhai papur wedi dweud bod ceisiadau fel arfer yn cael sylw o fewn saith diwrnod (46% o'i gymharu â 36%).

Yn Oakwood, roedd rheolwyr yn craffu'n rheolaidd ar brydlondeb ymatebion i geisiadau. Yn ôl data'r carchar, yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd tua 99% o'r ceisiadau wedi cael ymateb o fewn y targed o bum diwrnod. Roedd ein harolwg hefyd yn dangos bod ceisiadau'n cael eu trin yn fwy prydlon nag mewn carchardai eraill.

- 1.51 Serch hynny, o'r saith carchar a arolygwyd gennym yn y chwe mis hyd at 30 Medi 2024, nid oedd dau o'r carchardai lle gallai carcharorion ddefnyddio technoleg i gyflwyno ceisiadau yn gallu darparu unrhyw ddata ar faint a oedd wedi cael eu hateb a'u datrys o fewn saith diwrnod.
- 1.52 Roedd data a ddarparwyd gan y rhan fwyaf o garchardai a oedd yn defnyddio system geisiadau electronig yn awgrymu bod ymateb yn cael ei roi i bob cais bron o fewn yr amserlen darged o saith diwrnod. Serch hynny, roedd hyn yn wahanol iawn i'n harolygon, lle mai dim ond 46% o'r ymatebwyr mewn carchardai a oedd yn defnyddio systemau electronig a ddywedodd fod ceisiadau fel arfer yn cael sylw o fewn y cyfnod hwnnw.
- 1.53 Er y dylai'r defnydd o dechnoleg i gyflwyno ceisiadau olygu bod carcharorion yn cael ateb prydlon, nid oedd hyn yn dylanwadu ar ansawdd yr ymatebion. Gwelsom sawl enghraifft lle roedd ymatebion, er eu bod wedi'u darparu o fewn yr amser targed, heb fod yn ddefnyddiol, dim ond yn cydnabod derbyn ac yn ymrwymo i ymateb ar

adeg heb ei diffinio yn y dyfodol, gan waethygu'r rhwystredigaeth y mae carcharorion yn ei theimlo.

- 1.54 Ar ben hynny, yn ein harolygon, dywedodd llai o ymatebwyr mewn carchardai â systemau electronig na'r rhai â systemau papur ei bod yn hawdd gwneud cais (65% o'i gymharu â 71%). Efallai fod hyn wedi cael ei achosi gan effaith trefn gyfyngedig a oedd yn golygu nad oedd carcharorion yn gallu defnyddio'r ciosgau adain mor aml ag y dylent.
- 1.55 Roedd ein harolygon hefyd yn dangos nad oedd gwahaniaeth sylweddol yng nghanfyddiad carcharorion sy'n defnyddio ceisiadau papur a'r rhai sy'n defnyddio systemau electronig ynghylch a oedd y ceisiadau'n cael eu trin yn deg, a oedd yn awgrymu nad oedd defnyddio technoleg wedi mynd i'r afael â gwendidau blaenorol yn ymarferol.
- 1.56 Yn y pen draw, yr elfen newidiol allweddol mewn unrhyw system geisiadau yw'r ffordd y mae staff yn ymateb i geisiadau gan garcharorion. Boed yn electronig neu ar bapur, all system ddim gwneud mwy nag adlewyrchu gallu a pharodrwydd staff i helpu carcharorion i ddatrys eu problemau. Mae gormod o arweinwyr a staff yn peidio â blaenoriaethu'r angen am ymatebion cyflym, clir a defnyddiol, sy'n gallu arwain at rwystredigaeth ddiangen a allai fod yn niweidiol ymysg carcharorion.

Atodiad 1 Methodoleg

Mae'r ddogfen thematig hon yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Hydref 2023 a 30 Medi 2024. Fel rhan o sylfaen dystiolaeth Arolygiaeth Carchardai EF, cynhelir arolwg cynrychioladol o garcharorion ar ddechrau pob arolygiad. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau strwythuredig sy'n hwyluso dadansoddiad meintiol, gan ein galluogi i gymharu grwpiau yn y sampl, ac mae cwestiynau agored ar y diwedd yn galluogi carcharorion i fynegi yn eu geiriau eu hunain beth sydd fwyaf cadarnhaol a negyddol am y carchar.

Cynhaliwyd dadansoddiad ar 5,431 o ymatebion o'r carchardai dynion a menywod sy'n oedolion; ni chafodd ymatebion carcharorion o garchardai agored eu cynnwys. Cynhaliwyd dadansoddiad cymharol i gymharu ymatebion carcharorion mewn carchardai a oedd yn defnyddio system geisiadau ar bapur â'r rhai mewn carchardai lle'r oedd systemau electronig fel ciosgau a gliniaduron Launchpad yn cael eu defnyddio. Cymharwyd grwpiau eraill hefyd, a phrofwyd gwahaniaethau o ran eu harwyddocâd ystadegol. Drwy gydol yr adroddiad, nid ydym yn cyfeirio at gymariaethau rhwng y ddau grŵp oni bai fod y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth yn y canlyniadau.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig hefyd o ymatebion carcharorion i'r cwestiynau agored ar ddiwedd yr holiadur. Cafodd yr holl sylwadau perthnasol eu hadolygu'n systematig gan ymchwilydd, a nodwyd themâu.

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag egwyddorion moesegol Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer gweithgareddau ymchwil: '[Egwyddorion moesegol ar gyfer ymchwil – Arolygiaeth Carchardai EF](https://www.hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk/egwyddorion-moesegol-ar-gyfer-ymchwil-arolygiaeth-carchardai-ef/)' (www.hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk).

Atodiad 1 Cyfeiriadau

Bandura, A. (1977). Self-efficacy: Toward a unifying theory of behavioral change. *Psychological Review*, 84(2), 191–215.

Fitzalan Howard, F., Box, G., & Wakeling, H. (2023). Examining Procedural Justice Perceptions in Probation in England and Wales. *Ministry of Justice Analytical Series*. <https://www.gov.uk/government/publications/examining-procedural-justice-perceptions-in-probation-in-england-and-wales> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2025).

Hulley, S., Liebling, A., & Crewe, B. (2012). Respect in prisons: Prisoners' experiences of respect in public and private sector prisons. *Criminology & Criminal Justice*, 12(1) pp. 3–23.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021) Papur polisi *HMPPS Digital, Data and Technology Strategy: What to expect in 2021/22*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/hmpps-digital-data-and-technology-strategy-what-to-expect-in-202122/hmpps-digital-data-technology-strategy-what-to-expect-in-202122> (Cyrchwyd 26 Tachwedd 2024).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024) Launchpad Home is Live! Ar gael yn: <https://mojdigital.blog.gov.uk/2024/09/06/launchpad-home-is-live/> (Cyrchwyd 26 Tachwedd 2024).

Palmer, E. J., Hatcher, R. M., & Tonkin, M. J. (2020). Evaluation of digital technology in prison. *Gwasanaeth Dadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder*. <https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-digital-technology-in-prisons> (Cyrchwyd 26 Tachwedd 2024).

van der Kaap-Deeder, J., Audenaert, E., Vandeveld, S., Soenens, B., Van Mastrigt, S., Mabbe, E., & Vansteenkiste, M. (2017). Choosing when choices are limited: The role of perceived afforded choice and autonomy in prisoners' well-being. *Law and Human Behavior*, 41(6), tt. 567–578.

Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn: [Ein hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://justiceinspectorates.gov.uk)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Carchardai EF

3rd floor

10 South Colonnade

Canary Wharf

Llundain

E14 4PU

Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.